

## Mae gennym ei air

“... a fyddwn i wedi dweud wrthyfch fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi.” (ad. 2)

### Beth am ddarllen Ioan 14:1–14 ac yna myfyrio

Bellach, yr ydym am droi at y cwestiwn: “A yw’r hiraeth am nefoedd, yr hiraeth y mae Duw wedi ei roi yn fy nghalon, er bod llawer yn anwybyddu hyn (neu yn ceisio ei wadu), yn ddigon o dystiolaeth fod yna nefoedd?” Mi fydd llawer sydd yn meddwl yn wyddonol yn barod i ddadlau nad yw syniad goddrychol fel hyn yn ddigonol. Rhaid wrth brofion gwrthrychol, neu mae’n bosibl eich bod yn eich twyllo eich hunan. Dywedodd un gwyddonydd ifanc wrthyf unwaith: “Mae’r rhai sydd wedi teithio ar draws anialwch yn ymwybodol o’r perygl o ddechymygon. Mae dyn yn gweld dŵr o’i flaen. Mae’n barod i fentro ei fywyd ei fod yno, ond wrth ymestyn i yfed, mae’n diflannu.” Mae hyn yn dangos fod ein meddwl yn medru bod yn gaeth i ddechymygon. Mae’n debyg, wrth i ni hiraethu am rywbeth, y gall ein meddwl berswadio ei fod ar gael. Sut, felly, mae bod yn siŵr mai nid dychymyg yw ein dyhead am y nefoedd?

Cyfeiriais y gwyddonydd ifanc at eiriau ein testun heddiw, lle mae Iesu’n sôn ei fod am fynd i baratoi lle i ni. Mae gennym ni y prawf gorau posibl. Dywedodd Iesu fod yna nefoedd, fod yna le wedi ei baratoi yno ar gyfer gwŷr a gwragedd sydd yn credu ynddo. Pa dystiolaeth well sydd ei hangen na geiriau Iesu? Wrth gwrs, os nad yw person yn credu yn Iesu, neu’n barod i dderbyn ei fod yn Fab Duw, mae hynny yn fater gwahanol. Mae gair Iesu yn ddigon i mi, ac rwy’n siŵr ei fod yn ddigon i chi sydd yn darllen y geiriau yma. Mae wedi dweud wrthym yn glir ei fod am gyfarfod â’r rhai sydd yn credu ynddo, a chyfarfod â hwy yn y nefoedd. Dywedodd Iesu: “Myfi yw’r gwirionedd” a’r Iesu hwn sydd wedi rhoi ei air i ni.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 11:1–4; Ioan 17:1; Math. 5:1–12

### Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. I ble y cyfeiriwn ein gweddïau yn gyntaf?
2. Pam, yn ôl Iesu, y dylem lawenhau?

### Gweddi

Arglwydd, rwy’n diolch i ti mai nid fy syniadau goddrychol i sy’n llywio fy nghredo am y nefoedd. Mae gair dy Fab wedi setlo hyn i mi am byth. Gallaf golli hyder yn fy nheimladau ond ni allaf byth golli ffydd yn Iesu. Amen.